Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**

National Assembly for **Wales**

# Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Plant sy'n Agored i Niwed

## Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 3) 2007

Adroddiad Pwyllgor
Ionawr 2008

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.assemblywales.org

I gael rahgor o gopiau called o'r ddogfen hon cystlltwch â:

Swyddfa Ddeddfwriaeth
Y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Plant sy'n Agored i Niwed Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 1990
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk

**Cynnwys**

---


| | Tudalen |
|---|---|
| **Aelodau'r Pwyllgor** | **3** |
| **Crynodeb** | **5** |
| **1. Rhagymadrodd** | **7** |
| **2. Egwyddor y Gorchymyn arfaethedig** | **9** |
| **3. Craffu ar y Gorchymyn arfaethedig** | **14** |
| **4. Materion eraill** | **26** |
| **Atodiad 1:** Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 3) 2007 a'r Memorandwm Esboniadol | **33** |
| **Atodiad 2:** Llythyr ymgynghori | **47** |
| **Atodiad 3:** Rhestr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad | **49** |
| **Atodiad 4:** Rhestr o'r dystiolaeth lafar | **51** |
| **Atodiad 5:** Gohebiaeth a dderbyniwyd oddi wrth y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, dyddiedig 5 Tachwedd 2007, 17 Rhagfyr 2007 a 14 Ionawr 2008 | **53** |

**Aelodau'r Pwyllgor**

---

| | | |
|---|---|---|
| Karen Sinclair (Cadeirydd) | Llafur | De Clwyd |
| Nerys Evans | Plaid Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Lesley Griffiths | Llafur | Wrecsam |
| David Melding | Ceidwadwyr | Canol De Cymru |
| Kirsty Williams | Democratiaid Rhyddfrydol | Brycheiniog a Sir Faesyfed |

## Crynodeb

Mae casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig ynghylch Plant sy'n Agored i Niwed fel a ganlyn:

- Rydym yn cytuno, o ran egwyddor, y dylai cymhwysedd deddfwriaethol yn y meysydd a nodwyd yn y Gorchymyn arfaethedig gael ei roi i'r Cynulliad.

- Rydym yn gofyn am sicrwydd gan Lywodraeth y Cynulliad y caiff y trefniadau ar gyfer llinellau atebolrwydd, swyddogaethau a chylch gorchwyl Comisiynydd Plant Cymru eu hystyried mewn Mesur yn y dyfodol ac rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad gyflwyno Mesur arfaethedig ar y mater hwn ar y cyfle cyntaf.

- Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ddiwygio Mater 15.7 er mwyn cyfeirio'n unswydd at chwythu'r chwiban ac eiriolaeth.

- Yng ngoleuni'r dystiolaeth a gafwyd a'r pwysigrwydd sy'n cael ei roi i gysyniad chwarae yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a chan Lywodraeth y Cynulliad yn eu dogfennau polisi ar y pwnc hwn, rydym wedi'n darbwyllo o blaid yr achos dros gynnwys y gair 'chwarae' ym mharagraff (c) yr adran dehongli sy'n ymwneud â "llesiant", ac rydym yn argymell y dylid gwneud hynny.

- Rydym wedi'n darbwyllo gan bwysau'r dystiolaeth a gafwyd fod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn benodol, mor bwysig nes ei fod yn haeddu cael ei gynnwys ar wyneb y Gorchymyn arfaethedig, ac rydym yn argymell y dylid gwneud hynny.

- Rydym hefyd yn gryf o blaid sefydlu grŵp monitro statudol i fonitro'r gwaith i roi Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar waith yng Nghymru, ac i gyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Cynulliad. Rydym yn awgrymu y gallai hyn gael ei ystyried gan bwyllgor Mesur a gâi ei sefydlu i gyflwyno adroddiad ar Fesur arfaethedig a fyddai'n deillio o'r Gorchymyn arfaethedig.

- Rydym yn nodi'r dystiolaeth a gafwyd gan y tystion a'r Dirprwy Weinidog y dylai'r terfyn oedran uchaf y darperir ar ei gyfer yn y dehongliad o 'pobl ifanc' gael ei ddiwygio i 25 oed, ac rydym yn argymell y dylid gwneud hynny.

- Rydym yn teimlo bod cysyniad 'tlodi plant' yn thema mor ganolog yn y Gorchymyn arfaethedig nes y dylid cydnabod hynny drwy gynnwys y term ar wyneb y ddeddfwriaeth, yn enwedig felly yng ngoleuni targed Llywodraeth y Cynulliad o ddileu tlodi plant yng Nghymru erbyn 2020. Rydym yn argymell felly y dylid darparu yng nghorff y Gorchymyn arfaethedig ar gyfer 'tlodi plant', er enghraifft, drwy ychwanegu Mater arall yn unswydd ar ei gyfer.

- Rydym yn argymell ymhellach y dylai darpariaeth gyfatebol gael ei gwneud yn adran dehongli y Gorchymyn arfaethedig ar gyfer ‘tlodi plant’.

- Rydym yn cydnabod dymuniad diysgog y Cynulliad i gyflwyno gwaharddiad ar gosb gorfforol i blant. Er hynny, rydym yn bryderus nad yw Llywodraeth y Cynulliad wedi egluro’i bwriad yn hyn o beth mewn perthynas â’r Gorchymyn arfaethedig, ac nad yw wedi rhannu gyda ni y cyngor cyfreithiol y mae wedi’i gael. Ar y sail honno, nid ydym yn teimlo ein bod yn gallu gwneud argymhelliad ynghylch y pwynt hwn, ac yn hytrach fe hoffem alw ar Lywodraeth y Cynulliad i egluro’i safbwynt ynghylch hyd a lled y Gorchymyn arfaethedig mewn perthynas â dileu’r amddiffyniad o gosb resymol.

- Os yw’r cyngor cyfreithiol y mae’r Dirprwy Weinidog wedi’i gael yn awgrymu nad yw’r Gorchymyn arfaethedig yn gyfrwng addas ar gyfer trosglwyddo’r cymhwysedd hwn, rydym yn argymell y dylai’r Dirprwy Weinidog geisio trosglwyddo’r pwerau priodol i’r Cynulliad drwy gyfrwng y *Mesur Plant a Phersonau Ifanc*.

## 1. Rhagymadrodd

---

*Y cefndir*

1. Ar 9 Gorffennaf 2007, gosododd y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, Gwenda Thomas AC ('y Dirprwy Weinidog'), orchymyn arfaethedig, *Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 3) 2007* ('y Gorchymyn arfaethedig') a'r Memorandwm Esboniadol, yn unol â Rheolau Sefydlog 22.13 - 22.14. Ceir copïau o'r dogfennau hyn yn Atodiad 1. I gyd-fynd â hyn cafwyd datganiad gan y Dirprwy Weinidog yn y cyfarfod llawn ar 10 Gorffennaf.[1]

2. Cyn hynny, ar 3 Gorffennaf 2007, roedd y Pwyllgor Busnes wedi cytuno i gyfeirio'r Gorchymyn arfaethedig, pan gâi ei osod, at bwyllgor i'w ystyried yn fanwl, yn unol â Rheol Sefydlog 22.16.

3. Yn sgil penderfyniad yn y cyfarfod llawn ar 4 Gorffennaf 2007, cafodd y Pwyllgor ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Arfaethedig ynghylch Plant sy'n Agored i Niwed ('y Pwyllgor') ei sefydlu, yn unol â Rheol Sefydlog 21, i ystyried y Gorchymyn arfaethedig a chyflwyno adroddiad arno erbyn 25 Ionawr 2008 fan bellaf.[2]

*Rhychwant gwaith craffu'r Pwyllgor*

4. Yn ein cyfarfod cyntaf ar 27 Medi 2007, cytunodd y Pwyllgor ar rychwant ein gwaith craffu, fel y nodir isod:

i. penderfynu a yw egwyddorion cyffredinol y Gorchymyn arfaethedig, sef y cymhwysedd deddfwriaethol hwnnw a bennir ym Materion 15.1-15.8, gael ei roi i'r Cynulliad; a

ii. penderfynu a yw'r Gorchymyn arfaethedig yn fframwaith priodol ar gyfer gwireddu'r agenda polisi ar Blant sy'n Agored i Niwed a Thlodi Plant. Yn benodol, a yw telerau'r Gorchymyn arfaethedig wedi'u diffinio'n rhy fras neu'n rhy gul.

*Tystiolaeth*

5. Cyhoeddodd y Pwyllgor alwad gyffredinol am dystiolaeth gan wahodd sefydliadau allweddol ym meysydd plant sy'n agored i niwed a thlodi plant i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i fwydo'n gwaith. Ceir copi o'n llythyr ymgynghori yn Atodiad 2. Mae rhestr o'r ymatebion i'r ymarfer ymgynghori ar gael yn Atodiad 3.

---

[1] Cofnod y Trafodion, 10 Gorffennaf 2007, tudalennau 39-42

[2] Cafodd y dyddiad cau ar gyfer yr adroddiad ei bennu gan y Pwyllgor Busnes yn ei gyfarfod ar 18 Medi 2007

6. Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth ar lafar gan nifer o dystion, y ceir eu manylion yn Atodiad 4. Cawsom lythyrau hefyd i egluro agweddau ar y Gorchymyn arfaethedig gan y Dirprwy Weinidog, ac mae'r rhain ar gael yn Atodiad 5.

7. O dan Reol Sefydlog 22.21, wrth baratoi'n hadroddiad mae'n rhaid inni, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, gymryd i ystyriaeth unrhyw argymhellion a wneir ynglŷn â'r Gorchymyn arfaethedig:

(i) gan unrhyw un arall o bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru; a

(ii) gan unrhyw un o bwyllgorau Tŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi neu unrhyw gyd-bwyllgor i'r ddau Dŷ Seneddol.

Does dim argymhellion o'r fath wedi'u gwneud mewn perthynas â'r Gorchymyn arfaethedig.

8. Yr adroddiad a'r argymhellion canlynol yw'r casgliadau yr ydym wedi dod iddyn nhw ar sail y dystiolaeth a gafwyd yn ystod ein gwaith.

## 2. Egwyddor y Gorchymyn arfaethedig

---

*Y cefndir*

9. Diben y Gorchymyn arfaethedig yw diwygio Rhan 1 o Atodlen 5 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* ('Deddf 2006') i roi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad mewn perthynas â phlant sy'n agored i niwed a thlodi plant, drwy fewnosod 8 mater newydd ym Maes 15 yn yr Atodlen honno (Lles Cymdeithasol):

Mater 15.1 Diogelu plant rhag niwed ac esgeulustod.

Mater 15.2 Mabwysiadu a maethu.

Mater 15.3 Gofal cymdeithasol i blant a'r personau sy'n gofalu amdanynt.

Mater 15.4 Gofal cymdeithasol i bobl ifanc.

Mater 15.5 Cydweithrediad rhwng personau sy'n arfer swyddogaethau neu sy'n ymgymryd â gweithgareddau sy'n ymwneud â llesiant plant neu bobl ifanc a threfniadau i sicrhau bod swyddogaethau yn cael eu cyflawni mewn perthynas â'r angen i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc.

Mater 15.6 Cynllunio strategol gan awdurdodau lleol ar gyfer cyflawni swyddogaethau sy'n ymanwud â llesiant plant neu bobl ifanc.

Mater 15.7 Parhau, diddymu neu greu swydd neu gorff y mae a wnelo â diogelu a hyrwyddo llesiant plant neu bobl ifanc, a rhoi swyddogaethau i swydd neu gorff o'r fath, ac yn benodol—

(a) adolygu'r modd y mae unrhyw berson yn arfer swyddogaethau sy'n gysylltiedig â'u llesiant yn effeithio ar blant neu bobl ifanc,

(b) adolygu a monitro trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion a sylwadau a wnaed gan blant neu bobl ifanc, neu ar eu rhan, mewn cysylltiad ag unrhyw wasanaethau a ddarparwyd iddynt gan bersonau â swyddogaethau sy'n gysylltiedig â'u llesiant neu gan bersonau sy'n darparu gofal cymdeithasol iddynt,

(c) archwilio achosion plant penodol neu bobl ifanc penodol,

(d) ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar lesiant plant neu bobl ifanc, a gwneud sylwadau amdano.

Mater 15.8 Hyrwyddo cydraddoldeb rhwng plant neu bobl ifanc mewn perthynas â'u llesiant.

10. Mae'r cymhwysedd sydd i'w roi gan Faterion 15.1 - 15.8 yn dod o dan nifer o faterion wedi'u heithrio sy'n pennu meysydd lle nad oes cymhwysedd deddfwriaethol wedi'i roi i'r Cynulliad.

11. Bydd rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad drwy gyfrwng y Gorchymyn arfaethedig yn galluogi Llywodraeth y Cynulliad, Pwyllgorau neu Aelodau'r Cynulliad i gyflwyno cynigion ar gyfer deddfwriaeth, ar ffurf Mesurau Cynulliad, o fewn rhychwant Materion 15.1 – 15.8.

*Memorandwm Esboniadol*[3]

12. Yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Gorchymyn arfaethedig, mae Llywodraeth y Cynulliad yn datgan hyn: "Wrth wraidd polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc hawdd eu niweidio, plant sy'n derbyn gofal a thlodi plant y mae pedwar cyhoeddiad allweddol[4] (…) ac ymrwymiad yn y maniffesto i ddiwygio'r gyfraith ynglŷn â phlant hawdd eu niweidio a phlant sy'n derbyn gofal (…)."[5] Mae'n mynd yn ei flaen, "Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol yn gyfrwng angenrheidiol i gyflawni'r ymrwymiadau hyn".[6]

13. Mae'n haeru bod angen rhoi pwerau ehangach yn y maes hwn er mwyn goresgyn y cyfyngiadau deddfu presennol a chaniatáu i atebion Cymreig gael eu cyflwyno er mwyn gwireddu ymrwymiadau Llywodraeth y Cynulliad.[7]

14. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan hefyd y byddai'r cymhwysedd deddfwriaethol a geisir yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu er mwyn:

> "(i) ad-drefnu a chydgrynhoi'r darpariaethau presennol ar gyfer plant hawdd eu niweidio;
>
> (ii) diwygio'r gyfraith er mwyn darparu'r fframwaith cyfreithiol i roi ar waith gydrannau allweddol o bolisïau Llywodraeth

---

[3] Memorandwm gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 3) 2007, Cynnig ar gyfer Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynglŷn â Lles Cymdeithasol, GPO-03-EM
[4] *Gweithredu'r Hawliau*, Llywodraeth Cynulliad Cymru, (2005); *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol* – Strategaeth ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru dros y Degawd Nesaf, Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007); *Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell*, Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007); *Cynllun Gweithredu Tlodi Plant*, Llywodraeth Cynulliad Cymru
[5] GPO-03-EM, Paragraff 8
[6] GPO-03-EM, Paragraff 8
[7] GPO-03-EM, Paragraff 17

Cynulliad Cymru ar gyfer plant hawdd eu niweidio yng Nghymru.
(iii) gwneud taliad atodol i gyfrifon Cronfa Ymddiriedolaeth Plant, ac os bydd yn angenrheidiol creu hawl statudol i gael gofal plant di-dâl ar gyfer plant dwy flwydd oed y mae'r angen mwyaf arnynt."[8]

15. Mae'n mynd ymlaen:

"Bydd y Gorchymyn yn darparu fframwaith cyfreithiol hefyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru fwrw ymlaen â'i chynigion i fynd i'r afael â thlodi plant, yn enwedig i gymryd camau i osod dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus i ddangos eu cyfraniad at waith rhoi terfyn ar dlodi plant a threfniadau penodol i awdurdodau lleol Cymru hybu cynilion plant yng Nghymru."[9]

*Tystiolaeth y rhai yr ymgynghorwyd â nhw*

16. Ymhlith y rhai a ymatebodd i'r ymarfer ymgynghori, cafwyd cefnogaeth eang i egwyddorion cyffredinol y Gorchymyn arfaethedig, a chafwyd croeso penodol iddo gan y mwyafrif o'r ymatebwyr. Yn benodol, dywedodd Barnardo's Cymru "we (…) support the broad approach taken by the LCO and believe that all of those who will need services and support would fall under its current remit".[10]

17. Dywedodd Achub y Plant, wrth groesawu'r Gorchymyn arfaethedig, eu bod yn llwyr o blaid "the intention to develop made-in-Wales policies for Wales' children and the need to consolidate the law as it relates to vulnerable children".[11]

18. Er hynny, mynegodd rhai o'r ymatebwyr bryder bod y gwaith i weithredu polisïau ar lawr gwlad yn y gorffennol wedi bod yn araf a bod yr adnoddau wedi bod yn gyfyngedig. Ar y sail honno, pwysleisiai'r tystion hyn fod angen sicrhau adnoddau llawn ar gyfer unrhyw ymrwymiadau mewn deddfwriaeth a fyddai'n codi yn y dyfodol o'r Gorchymyn arfaethedig.[12]

*Tystiolaeth y Dirprwy Weinidog*

19. Yn ei datganiad rhagarweiniol i'r cyfarfod llawn,[13] amlinellodd y Dirprwy Weinidog y cyfyngiadau ym mhwerau presennol Llywodraeth y Cynulliad i ddeddfu ym maes plant sy'n agored i niwed a thlodi plant, gan ddweud:

---

[8] GPO-03-EM, Paragraff 17
[9] GPO-03-EM, Paragraff 18
[10]Tystiolaeth ysgrifenedig, VC3
[11] Tystiolaeth ysgrifenedig, VC16
[12] Gan gynnwys Achub y Plant, Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
[13] Cofnod y Trafodion, 10 Gorffennaf 2007

"Mae'r ddeddfwriaeth bresennol ar les plant yn dameidiog. Mae hyn yn creu anghysondebau, lle y mae gwahanol grwpiau o blant a phobl ifanc yn derbyn gwahanol lefelau o wasanaeth ar sail eu statws yn hytrach na'u hangen."[14]

20. Yn y Pwyllgor, ymhelaethodd ar y pwynt hwn, gan ddatgan:

"(…) the LCO does, of course, go wider than vulnerable children and children in poverty (…). The LCO has been drafted so that it will allow the Welsh Assembly Govermnet to develop a Measure to consolidate and rationalise children's legislation—mainly provisions in the Children Acts of 1989 and 2004—to deliver on the commitment in 'One Wales'. The LCO has broad coverage to include the existing duties and functions of local authorities and their partners, general and specific, in relation to the safeguarding and promotion of the wellbeing of all children and young people in their communities—vulnerable children and others—and, of course, to support their families.[15]

21. Wrth ymateb i bryderon ynglŷn â gweithredu ac adnoddau, dadleuai'r Dirprwy Weinidog na fydd dim goblygiadau o ran costau yn sgil y Gorchymyn arfaethedig. Cydnabu y byddai unrhyw Fesurau neu reoliadau a fyddai'n cael eu gwneud yn y dyfodol o dan y Gorchymyn arfaethedig yn gosod baich ar yr awdurdodau lleol, ond rhoes ymrwymiad:

"Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ariannu'r costau, o dan gytundeb gyda llywodraeth leol yng Nghymru, drwy gynyddu'r hyn a fydd ar gael i awdurdodau lleol yn flynyddol."[16]

*Ein barn ni*

22. Rydym yn nodi'r gefnogaeth eang a gafwyd i'r Gorchymyn arfaethedig ac yn benodol nad oes yr un sefydliad wedi gwrthwynebu, o ran egwyddor, roi cymhwysedd deddfwriaethol yn y meysydd a nodwyd yn y Gorchymyn arfaethedig. Rydym hefyd yn nodi'r rhesymau a gynigiwyd gan y Dirprwy Weinidog dros ofyn am y cymhwysedd deddfwriaethol hwn. **Rydym yn cytuno, o ran egwyddor, y dylai cymhwysedd deddfwriaethol yn y meysydd a nodwyd yn y Gorchymyn arfaethedig gael ei roi i'r Cynulliad.**

23. Rydym yn cydnabod y dystiolaeth gan sefydliadau a oedd yn ymwneud â'r diffyg arian ar gyfer polisïau yn y gorffennol, ac rydym yn pwysleisio bod angen i unrhyw bwyllgor ar Fesur yn y dyfodol, a sefydlir i gyflwyno adroddiad ar Fesur arfaethedig sy'n deillio o'r Gorchymyn arfaethedig, roi ystyriaeth lawn i oblygiadau ariannol y Mesur arfaethedig hwnnw.

---

[14] Cofnod y Trafodion, 10 Gorffennaf 2007, tudalennau 39-42
[15] Cofnod y Trafodion, (Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Plant sy'n Agored i Niwed), 25 Hydref 2007, paragraff 6
[16] Cofnod y Trafodion, (Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Plant sy'n Agored i Niwed), 29 Tachwedd 2007, paragraff 37

24. Wrth bwyso a mesur a yw’r Gorchymyn arfaethedig yn rhy fras neu’n rhy gul, rydym wedi tanlinellu rhai materion sy’n ymwneud â gwaith drafftio penodol rhai o’r Materion a rhai cwestiynau eraill. Ystyrir y cwestiynau hyn ym mharagraffau 25 - 109 o’r adroddiad hwn.

## 3. Craffu ar y Gorchymyn arfaethedig

---

**Mater 15.1 - 'Niwed ac Esgeulustod'**

*Y cefndir*

25. Mae Mater 15.1 yn y Gorchymyn arfaethedig yn gwneud darpariaeth ar gyfer 'diogelu plant rhag niwed ac esgeulustod'.

26. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad gan y Dirprwy Weinidog a oedd y geiriau 'niwed' ac 'esgeulustod' yn yr enghraifft hon yn golygu dau beth gwahanol i'w gilydd, neu a oedd unrhyw brawf yn cael ei ddefnyddio i ddangos bod y ddau wedi digwydd.

27. Wrth ateb, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

> "Harm and neglect are not mutually exclusive. Neglect is a causative factor of harm. The inclusion of the term 'neglect' emphasises that the matter is concerned with the harm that arises not only from positive actions, but from omissions on the part of those responsible." [17]

28. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud:

> "I should point out that the words in the Legislative Competence Order are not tied to particular statutory definitions; they will bear their ordinary meaning in English."[18]

29. Yn ei llythyr dyddiedig 5 Tachwedd 2007, ymhelaethodd y Dirprwy Weinidog ar y pwynt hwn:

> "(…) the expression is not intended to mean that both harm and neglect need to be demonstrated before the relevant provisions operate. (…) It is … worth noting that the expression 'harm and neglect' is not tautologous. There is a purpose in mentioning both things."

*Ein barn ni*

30. Rydym yn nodi eglurhad y Dirprwy Weinidog ar y pwynt hwn ac rydym yn fodlon ar eiriad Mater 15.1.

---

[17] Cofnod y Trafodion, (Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Plant sy'n Agored i Niwed), 25 Hydref 2007, paragraff 49
[18] Cofnod y Trafodion, (Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Plant sy'n Agored i Niwed), 25 Hydref 2007, paragraff 49

**Mater 15.7 - Ynglŷn â Chomisiynydd Plant Cymru – trefniadau ar gyfer atebolrwydd, swyddogaethau a chylch gorchwyl**

*Y cefndir*

31. Mae Mater 15.7 yn gwneud darpariaeth ar gyfer 'Parhau, diddymu neu greu swydd neu gorff y mae a wnelo â diogelu a hyrwyddo llesiant plant neu bobl ifanc, a rhoi swyddogaethau i swydd neu gorff o'r fath.' Mae'r Mater hwn yn ymwneud yn bennaf â Chomisiynydd Plant Cymru.

*Tystiolaeth y rhai yr ymgynghorwyd â nhw*

32. Cododd Comisiynydd Plant Cymru Dros Dro bryderon ynghylch y trefniadau presennol ar gyfer atebolrwydd Swyddfa'r Comisiynydd Plant. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd:

> "We consider that an office or body concerned with safeguarding and promoting the well-being of children or young persons should be accountable to the National Assembly for Wales rather than to the Welsh Assembly Government (…) [as that office] would be able to carry out this role more effectively and independently if their budget is controlled by the National Assembly rather than a Government Department, as it is now by the Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills."[19]

33. Dyma safbwynt a ategwyd gan Gymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain ac Achub y Plant, a fynegodd bryder nad oedd y trefniant atebolrwydd hwn yn gyson â safonau a ategwyd gan y Cenhedloedd Unedig i lywodraethu sefydliadau hawliau dynol annibynnol, sy'n cael eu hadnabod fel 'egwyddorion Paris'.[20] Dyma ofid a rennid gan y Dr Osian Rees o Brifysgol Bangor.[21]

34. Pwysleisiodd Achub y Plant a'r Comisiynydd Plant Dros Dro mor bwysig oedd annibyniaeth a thryloywder yn y trefniadau hyn, gan amau na fyddai Mater 15.7 fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd yn caniatáu i Fesurau arfaethedig gael eu cyflwyno i ganiatáu i drefniadau atebolrwydd, swyddogaethau a chylch gorchwyl Swyddfa'r Comisiynydd Plant gael eu harchwilio'n gynhwysfawr.

*Tystiolaeth y Dirprwy Weinidog*

35. Wrth ateb y cwestiwn a fyddai Mater 15.7 fel y mae wedi'i ddrafftio yn caniatáu archwiliad cynhwysfawr ar drefniadau atebolrwydd, swyddogaethau a chylch gorchwyl Swyddfa'r Comisiynydd Plant, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

---

[19] Tystiolaeth ysgrifenedig, VC7
[20] Tystiolaeth ysgrifenedig, VC16
[21] Tystiolaeth ysgrifenedig, VC10

> "The wording of Matter 15.7 is entirely open and neutral and builds in no presumption about to whom the Children's Commissioner should be accountable. Therefore, it is entirely open for a future Measure to provide for the … Commissioner to be accountable to the National Assembly for Wales."[22]

*Ein barn ni*

36. Rydym yn nodi cymaint o dystiolaeth a ddaeth i law ynghylch trefniadau atebolrwydd, swyddogaethau a chylch gorchwyl Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru ac mor bwysig yw annibyniaeth a thryloywder yn y trefniadau hynny, yn unol â'r arferion gorau rhyngwladol.

37. Rydym yn cydnabod bod yna rywfaint o bryder ymhlith y tystion na fyddai'r Gorchymyn arfaethedig, fel y mae wedi'i ddrafftio, yn caniatáu i newidiadau yn y trefniadau hyn gael eu gwneud gan y Cynulliad. Er hynny, rydym yn nodi ac yn derbyn eglurhad y Dirprwy Weinidog y byddai hynny'n cael ei ganiatáu.

38. Ar y sail honno, ac yng ngoleuni'r dystiolaeth a gawsom, **rydym yn gofyn am sicrwydd gan Lywodraeth y Cynulliad y caiff y trefniadau ar gyfer llinellau atebolrwydd, swyddogaethau a chylch gorchwyl Comisiynydd Plant Cymru eu hystyried mewn Mesur yn y dyfodol ac rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad gyflwyno Mesur arfaethedig ar y mater hwn ar y cyfle cyntaf.**

---

## Mater 15.7(b) - Comisiynydd Plant Cymru – chwythu'r chwiban ac eiriolaeth

*Y cefndir*

39. Mae Mater 15.7(b) yn darparu, yn benodol, ar gyfer 'adolygu a monitro trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion a sylwadau a wnaed gan blant neu bobl ifanc, neu ar eu rhan, mewn cysylltiad ag unrhyw wasanaethau a ddarparwyd iddynt gan bersonau â swyddogaethau sy'n gysylltiedig â'u llesiant neu gan bersonau sy'n darparu gofal cymdeithasol iddynt'.

*Tystiolaeth y rhai yr ymgynghorwyd â nhw*

40. Cododd y Comisiynydd Plant Dros Dro bryderon hefyd ynghylch diffyg darpariaeth ym Mater 15.7(b) ar gyfer adolygu a monitro chwythu'r chwiban ac eiriolaeth. Dadleuai fod y rhain yn "essential safeguards in promoting and safeguarding the rights and welfare of children".[23]

[22] Cofnod y Trafodion, (Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Plant sy'n Agored i Niwed), 29 Tachwedd 2007, paragraff 103
[23] Tystiolaeth ysgrifenedig, VC7

41. Ategwyd hyn gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a MIND Cymru, a ddadleuai:

> "To have an independent advocate is vitally important [for young people] … to build [their] confidence and to give them credibility when they present their views to others. For that to be an independent person is as important for young people as it is for people who, for example, lack capacity or for adults with a mental health problem who need an advocate."[24]

42. O'i holi am y diffyg cyfeiriadau pendant ym Mater 15.7 at chwythu'r chwiban ac eiriolaeth, ymatebodd y Comisiynydd Plant Dros Dro:

> "I do not understand why it is not there if the issue of complaints is. As we know, complaints, whistle-blowing and monitoring are the three pillars to safeguard vulnerable children in particular, as we saw with the Waterhouse inquiry and many other inquiries."[25]

*Tystiolaeth y Dirprwy Weinidog*

43. Pan ofynnwyd i'r Dirprwy Weinidog pam nad oedd chwythu'r chwiban ac eiriolaeth wedi'u crybwyll yn bendant yn y Gorchymyn arfaethedig, dywedodd hithau:

> "Matter 15.7 covers the review and monitoring of arrangements for dealing with complaints and representations made by or on behalf of children or young persons. This would cover the aspect of complaints made by employees who are whistleblowers. Changes to the law to offer protection to the whistleblower himself or herself, as opposed to the substance of the complaints, are matters of employment law and are therefore outside the scope of the devolution settlement. The LCO does provide for future Measures to legislate in relation to advocacy. This is the reason behind the inclusion of the wording 'securing their rights' in matter 15.8, in the definition of 'well-being'.

44. O holi ymhellach pam nad oes darpariaeth bendant ar eu cyfer, os yw chwythu'r chwiban ac eiriolaeth yn ymhlyg yn nhelerau'r Gorchymyn arfaethedig, dadleuai cynghorydd cyfreithiol y Dirprwy Weinidog fod y gwaith i ddrafftio'r Gorchymyn arfaethedig wedi'i wneud ar sail 'gorau po leiaf', o safbwynt y geiriad a ddefnyddiwyd er mwyn osgoi awgrymu bod rhywbeth wedi'i hepgor drwy fethu â chynnwys pob peth arall a allai fod yn yr un dosbarth ag ef.[26]

---

[24] Cofnod y Trafodion, (Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Plant sy'n Agored i Niwed), 15 Tachwedd 2007, paragraff 118 a 120
[25] Cofnod y Trafodion, (Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Plant sy'n Agored i Niwed), 6 Tachwedd 2007, paragraff 78
[26] Cofnod y Trafodion, (Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Plant sy'n Agored i Niwed), 29 Tachwedd 2007, paragraff 138

*Ein barn ni*

45. Rydym yn nodi cryfder y dystiolaeth a roddwyd ar y mater hwn ac nid ydym o'r farn bod geiriad Mater 15.7(b) yn ddigon pendant o ran ei gyfeiriad at chwythu'r chwiban ac eiriolaeth.

46. Rydym yn dal heb ein darbwyllo gan y rhesymau a gynigiwyd gan y Dirprwy Weinidog dros beidio â chynnwys y materion hyn ar wyneb y Gorchymyn arfaethedig. Gan hynny, **rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ddiwygio Mater 15.7 er mwyn cyfeirio'n unswydd at chwythu'r chwiban ac eiriolaeth.**

---

**Dehongli 'Llesiant' – 'Nam ar y synhwyrau / Nam cyfathrebu'**

*Y cefndir*

47. Mae paragraff (a) o'r dehongliad o 'llesiant' ym Maes 15 yn ymwneud â 'llesiant corfforol ac emosiynol a llesiant iechyd meddwl'.

*Tystiolaeth y rhai yr ymgynghorwyd â nhw*

48. Cawsom dystiolaeth gan Gymdeithas Genedlaethol y Plant Byddar (NDCS) a oedd yn datgan nad yw'r ddeddfwriaeth, o ran egwyddor ac yn ymarferol, wedi ymateb yn ddigonol i anghenion plant sydd â nam ar eu synhwyrau neu ar eu cyfathrebu.[27]

49. Cydnabu'r NDCS fod y Gorchymyn arfaethedig fel y mae wedi'i ddrafftio yn cynnwys plant y bernir eu bod yn agored i niwed, ond roedden nhw'n amau a oedd paragraff (a) o'r dehongliad o 'llesiant' y darperir ar ei gyfer yn y Gorchymyn arfaethedig yn cynnwys y plant hynny sydd â nam ar eu synhwyrau neu ar eu cyfathrebu.

*Tystiolaeth y Dirprwy Weinidog*

50. Wrth ymateb i'r cwestiwn hwn, cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog fod y Gorchymyn arfaethedig yn cynnwys plant sydd â nam ar eu synhwyrau neu ar eu cyfathrebu a chymorth i deuluoedd a gofalwyr plentyn mewn angen, gan gynnwys plant anabl a'r rhai sydd â nam ar eu synhwyrau. Dywedodd :

> "The LCO is drafted in a way that covers the definition of 'disabled' as it appears in section 17 of the Children Act 1989. This expressly covers those with sensory impairments."[28]

[27] Tystiolaeth ysgrifenedig, VC2
[28] Cofnod y Trafodion, (Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Plant sy'n Agored i Niwed), 29 Tachwedd 2007, paragraff 49

*Ein barn ni*

51. Rydym yn nodi ac yn croesawu eglurhad y Dirprwy Weinidog ar y pwynt hwn ac rydym yn fodlon bod y Gorchymyn arfaethedig, fel y mae wedi'i ddrafftio, yn gwneud darpariaeth ar gyfer plant sydd â nam ar eu synhwyrau neu ar eu cyfathrebu.

---

**Dehongli 'Llesiant' - 'Ofn'**

*Y cefndir*

52. Mae paragraff (b) o'r dehongliad o 'llesiant' ym Maes 15 yn ymwneud â 'diogelwch rhag niwed ac esgeulustod'.

*Tystiolaeth y rhai yr ymgynghorwyd â nhw*

53. Cawsom dystiolaeth gan Gymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain a oedd o blaid cynnwys y gair 'ofn' ym mharagraff (b) o'r dehongliad o 'llesiant',

> "because (…) one of the most dreadful things that can happen to a child is to be afraid. Recognising how significant that is for an individual child in a definition feels to us to be very child-focused."[29]

*Tystiolaeth y Dirprwy Weinidog*

54. Wrth ymateb i'r cynnig hwn, cydnabu'r Dirprwy Weinidog y gall ofn fod yn achos neu'n effaith a allai arwain at bryder ynghylch diogelwch plentyn, ond dadleuai na fyddai ychwanegu'r gair 'ofn' yn ychwanegu dim gwerth at y diffiniad. Ymhelaethodd ei chynghorydd cyfreithiol, gan esbonio bod ofn yn rhan o'r diffiniad ehangach o lesiant, niwed ac esgeulustod y darperir ar ei gyfer yn *Neddf Plant 2004* ac mewn canllawiau eraill. [30]

*Ein barn ni*

55. Rydym yn nodi'r dystiolaeth a roddodd Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain, ac yn cydymdeimlo â'r dystiolaeth honno, ond rydym yn derbyn dadl y Dirprwy Weinidog fod geiriad paragraff (b) o'r dehongliad o 'llesiant' yn ymgorffori ofn ac na fyddai ychwanegu'r gair 'ofn' yn ychwanegu dim gwerth at y diffiniad.

---

[29] Cofnod y Trafodion, (Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Plant sy'n Agored i Niwed), 20 Tachwedd 2007, paragraff 87

[30] Cofnod y Trafodion, (Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Plant sy'n Agored i Niwed), 29 Tachwedd 2007, paragraff 72

**Dehongli 'Llesiant' – 'Chwarae'**

*Y cefndir*

56. Mae paragraff (c) o'r dehongliad o 'llesiant' ym Maes 15 yn ymwneud ag 'addysg, hyfforddiant a hamdden'.

*Tystiolaeth y rhai yr ymgynghorwyd â nhw*

57. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, dadleuai Chwarae Cymru yn gryf o blaid cynnwys y gair 'chwarae' ym mharagraff (c) o'r dehongliad o 'llesiant'.[31] Dadleuai Chwarae Cymru fod chwarae yn gydran holl-bwysig yn natblygiad cadarnhaol y plentyn, a bod pwysigrwydd chwarae wedi'i danlinellu gan bolisi Llywodraeth y Cynulliad ar chwarae[32] sy'n datgan:

> "Mae chwarae mor hanfodol bwysig i bob plentyn yn natblygiad eu sgiliau corfforol, cymdeithasol, ymenyddol, emosiynol a chreadigol y dylai cymdeithas geisio pob cyfle i'w gefnogi a chreu amgylchedd sy'n ei feithrin."

58. Er bod hamdden yn bwysig yn y gymdeithas, mae Chwarae Cymru yn dadlau ymhellach y bernir bod y term 'hamdden' yn cynnwys difyrrwch a'i fod yn gallu cael ei ddisgrifio fel hunanfoddhaddod, ac nad yw'n cyfleu yn ddigonol mor bwysig yw cysyniad chwarae. Gan ymhelaethu ar hyn, maen nhw'n dadlau:

> "… if there were a scale of importance for factors relating to children's well-being, recreation would feature after play."[33]

*Tystiolaeth y Dirprwy Weinidog*

59. Mewn ymateb, dadleuai'r Dirprwy Weinidog fod i 'hamdden' ystyr ehangach na 'chwarae', ac na fyddai ychwanegu'r gair 'chwarae' yn y dehongliad o 'llesiant' yn ychwanegu dim at y diffiniad.[34]

60. Er hynny, fe fynegodd y Dirprwy Weinidog beth cydymdeimlad â'r pwyntiau a godwyd gan Chwarae Cymru a chydnabod bod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn cyfeirio'n unswydd at hawl y plentyn i chwarae, gan gyfaddef nad oedd yn gweld rheswm pam na allai'r gair 'chwarae' gael ei fewnosod yn y Gorchymyn arfaethedig ar yr amod bod hynny yn ychwanegol at y term 'hamdden'.[35]

---

[31] Tystiolaeth ysgrifenedig, VC9
[32] Polisi Chwarae Llywodraeth Cynulliad Cymru, Hydref 2002
[33] Tystiolaeth ysgrifenedig, VC9
[34] Cofnod y Trafodion, (Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Plant sy'n Agored i Niwed), 29 Tachwedd 2007, paragraffau 80-81
[35] Cofnod y Trafodion, (Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Plant sy'n Agored i Niwed), 29 Tachwedd 2007, paragraffau 80 ac 85

*Ein barn ni*

61. Rydym yn nodi pwyntiau'r Dirprwy Weinidog, ond nid ydym o'r farn bod y term 'hamdden' yn darparu'n ddigonol ar gyfer cysyniad chwarae.

62. **Yng ngoleuni'r dystiolaeth a gafwyd a'r pwysigrwydd a roddwyd i gysyniad chwarae yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a chan Lywodraeth y Cynulliad yn eu dogfennau polisi ar y pwnc hwn, rydym wedi'n darbwyllo o blaid yr achos dros gynnwys y gair 'chwarae' ym mharagraff (c) o'r adran dehongli sy'n ymwneud â "llesiant", ac rydym yn argymell y dylid gwneud hynny.**

---

**Dehongli 'Llesiant' - Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)**

*Y cefndir*

63. Mae paragraff (f) o'r dehongliad o 'llesiant' ym Maes 15 yn ymwneud â 'sicrhau eu hawliau' i unigolion.

*Tystiolaeth y rhai yr ymgynghorwyd â nhw*

64. Cawsom dystiolaeth gan nifer o ymatebwyr yn galw'n gryf am i'r Gorchymyn arfaethedig gynnwys cyfeiriad at yr UNCRC.

65. Dywedodd Plant yng Nghymru fod angen:

> "…ymgorffori un ai bob un o Erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn mewn cyfraith ddomestig neu'n well byth gynnwys yr holl Gonfensiwn yn systematig mewn darn trosfwaol o ddeddfwriaeth."[36]

66. Ategwyd y farn hon gan Achub y Plant, a oedd yn gobeithio y byddai'r Gorchymyn arfaethedig yn galluogi'r Cynulliad i ymgorffori'n fwy cynhwysfawr yn y gyfraith ofynion ar gyrff cyhoeddus i gydymffurfio â'r UNCRC drwy gyfrwng Mesurau newydd.[37]

67. Yn yr un modd, awgrymodd Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain (BAAF) y dylai'r Gorchymyn arfaethedig alluogi'r agenda polisi i ymgorffori set graidd o hawliau i blant yng Nghymru ac y gallai hynny gael ei wneud drwy ymgorffori cyfeiriad at yr UNCRC yn y Gorchymyn arfaethedig.[38]

68. Pan ofynnwyd pam y dylai'r UNCRC gael ei gynnwys yn y Gorchymyn arfaethedig, yn wahanol i bob cytuniad rhyngwladol perthnasol arall neu yn hytrach na chyfeiriad cyffredinol at hawliau, dywedodd BAAF mai'r rheswm

[36] Tystiolaeth ysgrifenedig, VC22
[37] Tystiolaeth ysgrifenedig, VC16
[38] Tystiolaeth ysgrifenedig, VC23

am hynny oedd arwyddocâd aruthrol y confensiwn yn fyd-eang o ran diffinio hawliau hanfodol y plentyn.[39]

69. Yn ychwanegol at hyn, tanlinellodd Achub y Plant mor bwysig oedd cyfeirio at yr UNCRC yn y Gorchymyn arfaethedig fel un ffordd i godi ymwybyddiaeth gyffredinol o hawliau plant a phobl ifanc.[40]

70. Er hynny, cafwyd cydnabyddiaeth ganddyn nhw, ac eraill, y gallai mewnosod cyfeiriad penodol at yr UNCRC yn y Gorchymyn arfaethedig gyfyngu'n ddamweiniol ar rychwant y Gorchymyn arfaethedig.

*Tystiolaeth y Dirprwy Weinidog*

71. Wrth ymateb i'r pwyntiau hyn, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

> "We have taken an important step in enshrining the rights of the child in legislation and the definition of wellbeing, securing the rights in Matter 15.8."[41]

72. Yn ychwanegol at hyn, dywedodd ei chynghorydd cyfreithiol wrthym:

> "… there is a difficulty about expressly including reference to the convention, in that the convention is an international treaty, to which the UK is signed up and is a state signatory (…). It would be constitutionally difficult for a constituent part of the United Kingdom to incorporate the convention into its law (…).[42]

73. Ymhelaethodd y Dirprwy Weinidog ar y pwynt hwn mewn ysgrifen, gan ddatgan:

> "Express reference to the UNCRC and its broad sweep of entitlements for children and young persons in an Order which is seeking to express in clear language the extent of the Assembly's legislative power is likely to lead to uncertainty both for the Assembly, the Welsh Assembly Government and the UK Government."[43]

*Ein barn ni*

74. Rydym yn nodi ymateb y Dirprwy Weinidog, ond **rydym wedi'n darbwyllo gan bwysau'r dystiolaeth a gafwyd fod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn benodol, mor bwysig nes ei**

---

[39] Cofnod y Trafodion, (Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Plant sy'n Agored i Niwed), 20 Tachwedd 2007, paragraff 20
[40] Cofnod y Trafodion, (Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Plant sy'n Agored i Niwed), 20 Tachwedd 2007, paragraff 22
[41] Cofnod y Trafodion, (Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Plant sy'n Agored i Niwed), 29 Tachwedd 2007, paragraff 57
[42] Cofnod y Trafodion, (Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Plant sy'n Agored i Niwed), 29 Tachwedd 2007, paragraff 61
[43] Llythyr y Dirprwy Weinidog, 17 Rhagfyr 2007

**fod yn haeddu cael ei gynnwys ar wyneb y Gorchymyn arfaethedig, ac rydym yn argymell y dylid gwneud hynny.**

75. **Rydym hefyd yn gryf o blaid sefydlu grŵp monitro statudol i fonitro'r gwaith i roi Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar waith yng Nghymru, ac i gyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Cynulliad. Rydym yn awgrymu y gallai hyn gael ei ystyried gan bwyllgor Mesur a gâi ei sefydlu i gyflwyno adroddiad ar Fesur arfaethedig a fyddai'n deillio o'r Gorchymyn arfaethedig.**

---

**Dehongli 'Pobl Ifanc'**

*Y cefndir*

76. Mae'r dehongliad o 'pobl ifanc' yn y Gorchymyn arfaethedig yn darparu ar gyfer unigolion sydd heb gyrraedd eu 24 oed.

*Tystiolaeth y rhai yr ymgynghorwyd â nhw*

77. Pan ofynnwyd am ddehongli 'pobl ifanc' yn y Gorchymyn arfaethedig fel pe bai'n golygu 'personau sydd wedi cyrraedd 18 oed ond nid 24 oed', dywedodd yr holl ymatebwyr y dylai'r ddarpariaeth hon gael ei diwygio i 25 oed, yn unol â'r ddeddfwriaeth bresennol a'r polisi presennol yn y maes hwn.

*Tystiolaeth y Dirprwy Weinidog*

78. Cyfaddefodd y Dirprwy Weinidog y dylai'r diffiniad o bobl ifanc gael ei ddiwygio fel hyn ac, yn ychwanegol, cadarnhaodd fod yna welliant ynglŷn ag ymadawyr gofal yn y *Mesur Plant a Phersonau Ifanc* sydd gerbron senedd y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd sy'n codi'r terfyn oedran uchaf y mae dyletswyddau'n ddyledus iddo i 25 oed.

*Ein barn ni*

79. **Rydym yn nodi'r dystiolaeth a gafwyd gan y tystion a'r Dirprwy Weinidog y dylai'r terfyn oedran uchaf y darperir ar ei gyfer yn y dehongliad o 'pobl ifanc' gael ei ddiwygio i 25 oed, ac rydym yn argymell y dylid gwneud hynny.**

---

**Dehongli 'Tlodi Plant', 'Plant sy'n Agored i Niwed' a 'Teulu'**

80. Does dim darpariaeth yn y Gorchymyn arfaethedig ar gyfer dehongliad o 'tlodi plant', 'plant sy'n agored i niwed' na 'teulu'.

*Tystiolaeth y rhai yr ymgynghorwyd â nhw*

81. Rydym wedi cael tystiolaeth gyferbyniol ynglŷn â'r cwestiwn a ddylid darparu ar gyfer dehongliadau o 'tlodi plant', 'plant sy'n agored i niwed' a 'teulu' yn y Gorchymyn arfaethedig neu a ddylid gadael hynny'n fater ar gyfer Mesurau yn y dyfodol.

82. Teimlai rhai o'r ymatebwyr y byddai diffiniad clir o'r termau hyn ar wyneb y Gorchymyn arfaethedig yn egluro'r ystyr a'r bwriad, ond roedd ymatebwyr eraill yn gochel rhag cyfyngu'n ddamweiniol ar rychwant mesurau yn y dyfodol drwy gynnwys gormod o ddiffiniadau yn y Gorchymyn galluogi.[44]

83. Ar gwestiwn tlodi plant yn benodol, dadleuai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod cynnwys y term yn y Gorchymyn arfaethedig yn rhan bwysig o "ensuring that the commitment to the eradication of child poverty has the necessary profile in the LCO".[45]

84. Aethant yn eu blaen i ddweud:

> "Social and economic wellbeing covers it, but this is partly to do with the messages that the LCO provides about the importance of that issue. (…) Having [a reference to child poverty] within the LCO would ensure that the focus is there; rather than implying that it is there through social and economic wellbeing, it would be clear, and specific action would be needed to deliver it."

*Tystiolaeth y Dirprwy Weinidog*

85. Wrth ymateb i'r cwestiwn pam nad oes cyfeiriad at 'tlodi plant', 'plant sy'n agored i niwed' na 'teulu' yn y Gorchymyn arfaethedig, dywedodd y Dirprwy Weinidog, yn ei llythyr dyddiedig 5 Tachwedd 2007:

> "The LCO covers all children and their families who need help of some kind to ensure the well-being of those children (…). The drafting approach in the LCO is to describe the types of things needed to provide help to those children and families that require assistance of some kind, rather than to describe the type of child or family. (…) Including definitions of the types of child and family covered would add nothing other than a further definitional task."

86. Ymhelaethodd ar hyn yn ei thystiolaeth lafar, gan ddadlau fel a ganlyn:

> "[although]… vulnerable children and child poverty are the main focus of the new legislative competence (…), the title of the LCO

[44] Gan gynnwys y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a MIND Cymru
[45] Cofnod y Trafodion (Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Plant sy'n Agored i Niwed), 20 Tachwedd 2007, paragraff 137

merely provides a convenient label to describe the main thrust of the proposals…”[46]

*Ein barn ni*

87. Rydym yn nodi'r dystiolaeth sy'n awgrymu y dylai'r Gorchymyn arfaethedig ddarparu ar gyfer dehongliad o 'plant sy'n agored i niwed' a 'teulu', ond nid ydym wedi'n darbwyllo y byddai cynnwys y rhain yn ychwanegu dim gwerth at y Gorchymyn arfaethedig.

88. Er hynny, **rydym yn teimlo bod cysyniad 'tlodi plant' yn thema mor ganolog yn y Gorchymyn arfaethedig nes y dylid cydnabod hynny drwy gynnwys y term ar wyneb y ddeddfwriaeth, yn enwedig felly yng ngoleuni targed Llywodraeth y Cynulliad o ddileu tlodi plant yng Nghymru erbyn 2020.[47] Rydym yn argymell felly y dylid darparu yng nghorff y Gorchymyn arfaethedig ar gyfer 'tlodi plant', er enghraifft, drwy ychwanegu Mater arall yn unswydd ar ei gyfer.**

89. **Rydym yn argymell ymhellach y dylai darpariaeth gyfatebol gael ei gwneud yn adran dehongli y Gorchymyn arfaethedig ar gyfer 'tlodi plant'.**

[46] Cofnod y Trafodion, (Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Plant sy'n Agored i Niwed), 29 Tachwedd 2007, paragraff 6
[47] GPO-03-EM, paragraff 11

## 4. Materion eraill

---

### Cosb Resymol

*Y cefndir*

90. O dan adran 58 o *Ddeddf Plant 2004* ('Deddf 2004'), mae'r amddiffyniad o gosb resymol (cerydd rhesymol gynt) i blentyn yn bodoli ar gyfer rhieni a'r rhai sy'n gweithredu *in loco parentis* pan gyhuddir nhw o ymosod cyffredin neu guro o dan *Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988*.[48]

*Tystiolaeth y rhai yr ymgynghorwyd â nhw*

91. Cawsom gryn dipyn o dystiolaeth a oedd yn dadlau'n gryf o blaid dileu'r amddiffyniad o gosb resymol sydd i'w gael o dan Ddeddf 2004, ac yn gofyn a fyddai modd gwneud hynny o dan y Gorchymyn arfaethedig.

92. Dadleuai Plant yng Nghymru a Barnardo's Cymru, gyda chefnogaeth Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain a Chymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain, o blaid dileu'r amddiffyniad, gan ddatgan bod gan blentyn hawl i gael o leiaf yr un faint o warchodaeth ag oedolyn o dan y gyfraith:

> "It is a 'legal, ethical and practical nonsense that, in the UK, we allow things to be done to children under the defence of reasonable chastisement that would count as assault, were they done to an adult."[49]

93. Yn eu tystiolaeth nhw, nododd Sdim Curo Plant! a'r Comisiynydd Plant Dros Dro fod llawer o wledydd Ewrop wedi cymryd camau erbyn hyn i wahardd cosb gorfforol i blant yn y cartref ac i gysoni eu deddfau â'r rhwymedigaethau rhyngwladol ar hawliau dynol tuag at blant. [50]

94. Fe dynnon nhw, ynghyd ag Achub y Plant, sylw at y gefnogaeth drawsbleidiol gref yn y Cynulliad i ddiwygio'r gyfraith yn hyn o beth, a nodi bod y naill Lywodraeth Cynulliad ar ôl y llall wedi mynegi gwrthwynebiad egwyddorol i'r gyfraith gyfredol a'u bod wedi cyflwyno sylwadau sawl tro, heb lwyddiant, i Lywodraeth y DU o blaid diwygio'r gyfraith ar gosb gorfforol fel y mae'n effeithio ar blant yng Nghymru.[51]

95. Mynegodd Achub y Plant, Sdim Curo Plant! a Barnardo's Cymru i gyd eu siom ar benderfyniad diweddar Llywodraeth y DU i beidio â diwygio'r

---

[48] Adran 39
[49] Cofnod y Trafodion, (Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Plant sy'n Agored i Niwed), 15 Tachwedd 2007, paragraff 15
[50] Tystiolaeth ysgrifenedig, VC13 a Chofnod y Trafodion (Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Plant sy'n Agored i Niwed), 6 Tachwedd 2007, paragraff 56
[51] Tystiolaeth ysgrifenedig, VC13 a VC16

gyfraith yn y maes hwn ac ar y ffaith bod Llywodraeth y Cynulliad yn dal yn methu â mynd ar ôl eu hymrwymiad yn hyn o beth.[52]

96. Dadleuai pob un o'r tystion a holwyd ynghylch y mater hwn yn gryf o blaid drafftio'r Gorchymyn arfaethedig mewn ffordd a fyddai'n galluogi'r Cynulliad i ddeddfu yn y maes polisi hwn.

97. Cawsom ein cyngor cyfreithiol ein hunain ar y pwynt hwn, sef cyngor a gydnabu mor gymhleth yw'r mater gan ddatgan:

> "In the absence of a definition of harm in the LCO, it could be argued that this LCO could be the gateway to legislation which makes all smacking of children in Wales unlawful and illegal. (…)
>
> However, there is a strong contrary argument, namely that the removal of the defence of reasonable chastisement generally, irrespective of the situation in which the force is administered, would relate to the general criminal law rather than to the field of social welfare."[53]

*Tystiolaeth y Dirprwy Weinidog*

98. Yn y cyfarfod ar 25 Hydref 2007, addawodd y Dirprwy Weinidog y byddai'n gofyn am gyngor cyfreithiol i gadarnhau'r sefyllfa o ran cosb resymol ac ysgrifennu at y Pwyllgor i'w hegluro.[54]

99. Yn y cyfarfod ar 29 Tachwedd 2007, dywedodd y Dirprwy Weinidog y byddai'n amhriodol iddi ddatgelu'r cyngor cyfreithiol yr oedd wedi'i gael, gan ddatgan, yn hytrach:

> "The issue concerns the interface between child welfare, criminal offences and criminal justice, and is a complex one that could ultimately only be decided by the courts in the light of a specific Measure."[55]

100. Nododd y Dirprwy Weinidog fod y Gorchymyn arfaethedig wedi ennyn cefnogaeth eang y rhanddeiliaid a dadleuodd na ddylid gwyro oddi wrth ffocws y Gorchymyn arfaethedig wrth fynd ar ôl materion sydd heb eu cynnwys yn bendant yn 'Cymru'n Un', ond aeth yn ei blaen i ddweud:

---

[52] Tystiolaeth ysgrifenedig, VC3, VC13 a VC16
[53] Cyngor cyfreithiol a ddarparwyd gan gyfreithwyr APS ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
[54] Cofnod y Trafodion, (Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Plant sy'n Agored i Niwed), 25 Hydref 2007, paragraff 23
[55] Cofnod y Trafodion, (Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Plant sy'n Agored i Niwed), 29 Tachwedd 2007, paragraff 18

> "… given the views expressed on many sides in the Assembly that it should be able to legislate on this issue, I have no reason at this stage to rule it out expressly." [56]

*Ein barn ni*

101. **Rydym yn cydnabod dymuniad diysgog y Cynulliad i gyflwyno gwaharddiad ar gosb gorfforol i blant. Er hynny, rydym yn bryderus nad yw Llywodraeth y Cynulliad wedi egluro'i bwriad yn hyn o beth mewn perthynas â'r Gorchymyn arfaethedig, ac nad yw wedi rhannu gyda ni y cyngor cyfreithiol y mae wedi'i gael. Ar y sail honno, nid ydym yn teimlo ein bod yn gallu gwneud argymhelliad ynghylch y pwynt hwn, ac yn hytrach fe hoffem alw ar Lywodraeth y Cynulliad i egluro'i safbwynt ynghylch hyd a lled y Gorchymyn arfaethedig mewn perthynas â dileu'r amddiffyniad o gosb resymol.**

102. Er ein bod yn dal yn aneglur a yw rhychwant y Gorchymyn arfaethedig yn golygu ei bod yn gyfrwng addas ar gyfer trosglwyddo cymhwysedd i'r Cynulliad i'w alluogi i ddileu'r amddiffyniad o gosb resymol, rydym yn ymwybodol o'r Mesur Plant a Phersonau Ifanc sydd gerbron Senedd y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd a allai fod yn gyfle i drosglwyddo cymhwysedd yn y maes hwn i'r Cynulliad. Gan hynny, **os yw'r cyngor cyfreithiol y mae'r Dirprwy Weinidog wedi'i gael yn awgrymu nad yw'r Gorchymyn arfaethedig yn gyfrwng addas ar gyfer trosglwyddo'r cymhwysedd hwn, rydym yn argymell y dylai'r Dirprwy Weinidog geisio trosglwyddo'r pwerau priodol i'r Cynulliad drwy gyfrwng y *Mesur Plant a Phersonau Ifanc*.**

---

## Materion wedi'u Heithrio

*Y cefndir*

103. Mae'r Gorchymyn arfaethedig yn ceisio diwygio'r tabl o faterion wedi'u heithrio y darperir ar ei gyfer ar ddiwedd Rhan 1 o Atodlen 5 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, drwy fewnosod nifer ychwanegol o faterion wedi'u heithrio.

*Tystiolaeth y rhai yr ymgynghorwyd â nhw*

104. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn fodlon ar y tabl o faterion wedi'u heithrio 19 – 28, y darperir ar ei gyfer o dan y Gorchymyn arfaethedig.

105. Nododd y Pwyllgor fod materion wedi'u heithrio 19-23 a 26-28 wedi'u codi'n uniongyrchol o baragraff 15 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ond na ddarparwyd ar gyfer materion wedi'u heithrio 24 (cronfeydd byw'n annibynnol) a 25 (motability) yn y Ddeddf.

---

[56] Cofnod y Trafodion, (Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Plant sy'n Agored i Niwed), 29 Tachwedd 2007, paragraff 18

106. Cawsom dystiolaeth hefyd a oedd yn amau hyd a lled yr eithriad ynglŷn â 'cyfraith teulu ac achosion cyfreithiol teuluol', a'i botensial ar gyfer cyfyngu'n sylweddol ar y Gorchymyn arfaethedig.[57]

*Tystiolaeth y Dirprwy Weinidog*

107. Wrth ymateb i'r cwestiwn am faterion wedi'u heithrio 24 a 25, esboniodd y Dirprwy Weinidog fod Atodlen 7 i Ddeddf 2006 wedi'i diwygio gan Orchymyn Cyfrin Gyngor yn 2007 i ychwanegu lwfans byw'n annibynnol a motability fel eithriadau ychwanegol i bwnc lles cymdeithasol yn yr Atodlen honno.

108. O ran yr eithriad ar gyfer 'cyfraith teulu ac achosion cyfreithiol teuluol', esboniodd cynghorydd cyfreithiol y Dirprwy Weinidog:

> "Matter 28 (…) is an exception and then an exception to the exception. What is excepted is family law and proceedings (…). However, what has been carved out of that area are those listed under subheadings (a), welfare advice to the courts, and (b), Welsh family proceedings officers."[58]

*Ein barn ni*

109. Rydym yn nodi'r eglurhad a roes y Dirprwy Weinidog ynghylch materion wedi'u heithrio 24, 25 ac 28 ac rydym yn fodlon ar y materion wedi'u heithrio fel y darperir ar eu cyfer yn y Gorchymyn arfaethedig.

---

[57] Tystiolaeth ysgrifenedig, VC10

[58] Cofnod y Trafodion, (Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Plant sy'n Agored i Niwed), 29 Tachwedd 2007, paragraff 158

Atodiadau

**GWNEIR GORCHMYNION CYMHWYSEDD DEDDFWRIAETHOL YN SAESNEG YN UNIG. CYFIEITHIAD I'R GYMRAEG ER GWYBODAETH YW HWN AC NID OES IDDO RYM CYFREITHIOL.**

**LCOS ARE MADE IN ENGLISH ONLY. THIS IS A TRANSLATION INTO WELSH FOR INFORMATION AND IT HAS NO LEGAL EFFECT.**

*Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Senedd o dan adran 95(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i'w gymeradwyo drwy benderfyniad y Cynulliad a dau Dŷ'r Senedd.*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L   D R A F F T

# 2007 Rhif

# CYFRAITH GYFANSODDIADOL

## DATGANOLI, CYMRU

# Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 3) 2007

*Gwnaed - - - -* ***

*Yn dod i rym yn unol ag Erthygl 1(1)*

Yn Llys Palas Buckingham, y *** dydd o *** 2007

Yn bresennol

Ei Hardderchocaf Fawrhydi y Frenhines yn y Cyfrin Gyngor

Yn unol ag adran 95(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**a**) mae drafft o'r Gorchymyn hwn wedi ei osod gerbron a'i gymeradwyo drwy benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru a dau Dŷ'r Senedd.

Gan hynny, mae'n bleser gan Ei Mawrhydi, yn unol ag adran 95(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn ôl a chyda chyngor ei Chyfrin Gyngor, orchymyn fel a ganlyn:-

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 3) 2007 a daw i rym drannoeth y diwrnod y caiff ei wneud.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "Deddf 2006" ("*the 2006 Act*") yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

### Diwygiadau i Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

**2.**—(1) Diwygir Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006 yn unol â'r erthygl hon.

---

(**a**) p.32.

GWNEIR GORCHMYNION CYMHWYSEDD DEDDFWRIAETHOL YN SAESNEG YN UNIG. CYFIEITHIAD I'R GYMRAEG ER GWYBODAETH YW HWN AC NID OES IDDO RYM CYFREITHIOL.

LCOS ARE MADE IN ENGLISH ONLY. THIS IS A TRANSLATION INTO WELSH FOR INFORMATION AND IT HAS NO LEGAL EFFECT.

(2) Ym maes 15 (lles cymdeithasol), mewnosoder—

"*Mater 15.1*

Diogelu plant rhag niwed ac esgeulustod.

*Mater 15.2*

Mabwysiadu a maethu.

*Mater 15.3*

Gofal cymdeithasol i blant a'r personau sy'n gofalu amdanynt.

*Mater 15.4*

Gofal cymdeithasol i bobl ifanc.

*Mater 15.5*

Cydweithrediad rhwng personau sy'n arfer swyddogaethau neu sy'n ymgymryd â gweithgareddau sy'n ymwneud â llesiant plant neu bobl ifanc a threfniadau i sicrhau bod swyddogaethau yn cael eu cyflawni mewn perthynas â'r angen i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc.

*Mater 15.6*

Cynllunio strategol gan awdurdodau lleol ar gyfer cyflawni swyddogaethau sy'n ymwneud â llesiant plant neu bobl ifanc.

*Mater 15.7*

Parhau, diddymu neu greu swydd neu gorff y mae a wnelo â diogelu a hyrwyddo llesiant plant neu bobl ifanc, a rhoi swyddogaethau i swydd neu gorff o'r fath, ac yn benodol—

(a) adolygu'r modd y mae unrhyw berson yn arfer swyddogaethau sy'n gysylltiedig â'u llesiant yn effeithio ar blant neu bobl ifanc,

(b) adolygu a monitro trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion a sylwadau a wnaed gan blant neu bobl ifanc, neu ar eu rhan, mewn cysylltiad ag unrhyw wasanaethau a ddarparwyd iddynt gan bersonau â swyddogaethau sy'n gysylltiedig â'u llesiant neu gan bersonau sy'n darparu gofal cymdeithasol iddynt,

(c) archwilio achosion plant penodol neu bobl ifanc penodol,

(d) ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar lesiant plant neu bobl ifanc, a gwneud sylwadau amdano.

*Mater 15.8*

Hyrwyddo cydraddoldeb rhwng plant neu bobl ifanc mewn perthynas â'u llesiant.

*Dehongli'r maes hwn*

Yn y maes hwn—

ystyr "awdurdodau lleol" ("*local authorities*") yw cynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru;

mae "gofal cymdeithasol" ("*social care*") yn cynnwys gofal preswyl, gofal dibreswyl, cefnogaeth, cymorth ariannol neu unrhyw gymorth arall, cyngor neu gwnsela a ddarperir gan unrhyw berson mewn cysylltiad â llesiant unrhyw berson;

ystyr "llesiant" ("*well-being*"), mewn perthynas ag unigolion, yw llesiant i'r graddau y mae'n ymwneud ag unrhyw un o'r canlynol—

(a) llesiant corfforol ac emosiynol a llesiant iechyd meddwl ;

(b) diogelwch rhag niwed ac esgeulustod,

**GWNEIR GORCHMYNION CYMHWYSEDD DEDDFWRIAETHOL YN SAESNEG YN UNIG. CYFIEITHIAD I'R GYMRAEG ER GWYBODAETH YW HWN AC NID OES IDDO RYM CYFREITHIOL.**

**LCOS ARE MADE IN ENGLISH ONLY. THIS IS A TRANSLATION INTO WELSH FOR INFORMATION AND IT HAS NO LEGAL EFFECT.**

(c) addysg, hyfforddiant a hamdden,

(d) y cyfraniad at y gymdeithas a wneir ganddynt,

(e) llesiant cymdeithasol ac economaidd;

(f) sicrhau eu hawliau.

ystyr "plant" ("*children*") yw personau nad ydynt wedi cyrraedd 18 oed;

ystyr "pobl ifanc" ("*young persons*") yw

(a) personau sydd wedi cyrraedd 18 oed ond nid 24 oed,

(b) personau sydd wedi cyrraedd 24 oed ac sy'n parhau â rhaglen addysg neu hyfforddiant yr oeddent yn ymgymryd â hi yn 21 oed."

**3.**—(1) Diwygir y tabl ar ddiwedd Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006 (materion a eithrir) yn unol â'r erthygl hon.

(2) Ar ôl mater 18 a eithrir mewnosoder y rhesi canlynol—

"

| | |
|---|---|
| **19.** Cymorth i blant. | Materion 15.1, 15.2, 15.3, 15.4, 15.5, 15.7, 15.8 |
| **20.** Cronfeydd ymddiriedolaeth plant, ac eithrio taliadau i mewn i gronfeydd o'r fath gan—<br>(a) cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru, neu<br>(b) Gweinidogion Cymru. | Materion 15.1, 15.2, 15.3, 15.4, 15.5, 15.7, 15.8 |
| **21.** Credydau treth. | Materion 15.1, 15.2, 15.3, 15.4, 15.5, 15.7, 15.8 |
| **22.** Budd-dal plant a lwfans gwarcheidwad. | Mater 15.1, 15.2, 15.3, 15.4, 15.5, 15.7, 15.8 |
| **23.** Nawdd cymdeithasol. | Materion 15.1, 15.2, 15.3, 15.4, 15.5, 15.7, 15.8 |
| **24.** Cronfeydd byw'n annibynnol. | Materion 15.1, 15.2, 15.3, 15.4, 15.5, 15.7, 15.8 |
| **25.** Motability. | Materion 15.1, 15.2, 15.3, 15.4, 15.5, 15.7, 15.8 |
| **26.** Mabwysiadu rhwng gwledydd, ac eithrio asiantaethau mabwysiadu a'u swyddogaethau, a swyddogaethau'r "Awdurdod Canolog" o dan Gonfensiwn yr Hâg ar Amddiffyn Plant a Chydweithredu mewn cysylltiad â Mabwysiadu rhwng Gwledydd. | Materion 15.2, 15.7 |
| **27.** Y Comisiynydd Plant a sefydlwyd o dan Ddeddf Plant 2004. | Materion 15.1, 15.2, 15.3, 15.4, 15.5, 15.6, 15.7, 15.8 |
| **28.** Cyfraith teulu ac achosion cyfreithiol teuluol ac eithrio—<br>(a) cyngor i lysoedd ynghylch lles, cynrychiolaeth a darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth arall i blant sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac i'w | Materion 15.1, 15.2, 15.3, 15.3, 15.4, 15.5, 15.6, 15.7, 15.8 |

GWNEIR GORCHMYNION CYMHWYSEDD DEDDFWRIAETHOL YN SAESNEG YN UNIG. CYFIEITHIAD I'R GYMRAEG ER GWYBODAETH YW HWN AC NID OES IDDO RYM CYFREITHIOL.

LCOS ARE MADE IN ENGLISH ONLY. THIS IS A TRANSLATION INTO WELSH FOR INFORMATION AND IT HAS NO LEGAL EFFECT.

| | |
|---|---|
| teuluoedd, a<br>(b) swyddogion achosion teuluol ar gyfer Cymru. | |

".

Clerc y Cyfrin Gyngor

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006"). Effaith y Gorchymyn yw estyn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud cyfreithiau newydd ar gyfer Cymru drwy Fesur o dan adran 93 o Ddeddf 2006.

Mae'r diwygiadau yn ymwneud â maes 15 (lles cymdeithasol) yn Rhan 1 o Atodlen 5. Y mae a wnelo hwy â llesiant plant a'u teuluoedd a phobl ifanc.

Mae erthygl 2 yn mewnosod materion newydd, sef materion 15.1 i 15.8, a darpariaethau dehongli ar gyfer maes 15. Mae'r materion newydd yn cynnwys y canlynol—

- diogelu plant rhag niwed ac esgeulustod (mater 15.1);
- mabwysiadu a maethu (mater 15.2);
- gofal cymdeithasol i blant a'r personau sy'n gofalu amdanynt (mater 15.3);
- gofal cymdeithasol i bobl ifanc (mater 15.4);
- cydweithrediad rhwng personau sydd â swyddogaethau, neu sy'n ymgymryd â gweithgareddau, sy'n ymwneud â llesiant plant a phobl ifanc a threfniadau sy'n gysylltiedig â hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc (mater 15.5);
- cynllunio strategol gan awdurdodau lleol (mater 15.6);
- parhau, diddymu a chreu swydd neu gorff y mae a wnelo â diogelu a hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a swyddogaethau swydd neu gorff o'r fath (mae'r mater hwn yn cynnwys rôl a swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru) (mater 15.7);
- hyrwyddo cydraddoldeb rhwng plant a phobl ifanc mewn perthynas â'u llesiant (mater 15.8).

Bydd unrhyw un o ddarpariaethau Mesur Cynulliad sy'n ymwneud â'r materion newydd, sef materion 15.1 i 15.8, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn rhinwedd telerau'r materion hynny ac adran 94(4) o Ddeddf 2006.

Mae erthygl 3 yn ychwanegu rhagor o faterion a eithrir at y tabl yn Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006. Effaith y tabl hwn yw na chynhwysir y materion a bennir yn y golofn gyntaf ("materion a eithrir") yn y materion yn y meysydd a enwir yn yr ail golofn. Ni fydd y Cynulliad yn gallu gwneud darpariaeth mewn Mesur Cynulliad o dan adran 94(4) o Ddeddf 2006 ynghylch unrhyw beth yn y golofn gyntaf, hyd yn oed pe byddai fel arall yn ymwneud â'r materion yn y meysydd a bennir yn yr ail golofn. Bydd y materion a eithrir yn y golofn gyntaf y tu allan i gwmpas y materion a bennir yn y cofnod cyfatebol yn yr ail golofn.

# MEMORANDWM GAN LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

# Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL: DATGANOLI, CYMRU

# Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 3) 2007

# Cynnig ar gyfer Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynglŷn â Lles Cymdeithasol

## Plant Hawdd eu Niweidio a Thlodi Plant

### Rhagarweiniad

1. Cafodd y Memorandwm hwn ei baratoi a'i osod gerbron yn unol â Rheol Sefydlog (RhS) 22.14. Mae'n gosod y cefndir i'r darpariaethau yn y cynnig amgaeedig gan y llywodraeth am Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (GCD) a fyddai'n rhoi cymhwysedd deddfwriaethol ychwanegol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Fe'i gosodir gerbron yn unol â RhS 22.13 ac mae'n esbonio cwmpas y pŵer y gwneir cais amdano.

2. Ceir cyd-destun cyfansoddiadol y cais hwn yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006) a pholisi Llywodraeth y DU. Dangosodd Papur Gwyn Llywodraeth y DU "Trefn Lywodraethu Well i Gymru" a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2005 ymrwymiad Llywodraeth y DU i wella pwerau deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel sefydliad a etholwyd yn ddemocrataidd gyda'i weithdrefnau craffu manwl ei hun.

3. Mae adran 95 o Ddeddf 2006 yn rhoi pŵer i'w Mawrhydi, drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor, i roi'r cymhwysedd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddeddfu drwy Fesur Cynulliad ar faterion penodedig. Caniateir ychwanegu'r materion hyn at feysydd o fewn Atodlen 5 i Ddeddf 2006. Caiff Mesurau Cynulliad wneud unrhyw ddarpariaeth y gallai Deddf Seneddol ei gwneud (ac o'r herwydd gall addasu deddfwriaeth bresennol a gwneud darpariaeth newydd), o ran materion, yn ddarostyngedig i'r terfynau y darperir ar eu cyfer yn Rhan 3 o Ddeddf 2006. Cyfeirir at Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan Adran 95 o Ddeddf 2006 fel Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (GCD) yn y memorandwm hwn.

4. Caniateir mewnosod materion i'r meysydd a gynhwysir yn Atodlen 5 i Ddeddf 2006, naill ai drwy Ddeddf Seneddol neu drwy Orchymyn

Cymhwysedd Deddfwriaethol, a gymeradwywyd gan y Cynulliad a chan ddau Dŷ'r Senedd. Mae'r ail lwybr yn galluogi'r Cynulliad i gychwyn y broses ar gyfer trosglwyddo cymhwysedd o'r fath drwy Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol.

5. Byddai'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol a gynigir yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol ychwanegol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ym maes Lles Cymdeithasol (maes 15, Rhan 1, Atodlen 5 i Ddeddf 2006).

6. Bydd pwerau deddfwriaethol newydd ar gyfer y "mater" penodedig yn galluogi Llywodraeth y Cynulliad, Aelodau'r Cynulliad a Phwyllgorau'r Cynulliad i ddwyn cynigion cydlynol gerbron ar gyfer deddfwriaeth, ar ffurf Mesurau, a seilir ar flaenoriaethau ac amserlenni yng Nghymru. Bydd y Mesurau hyn yn destun craffu trylwyr a chymeradwyaeth gan y Cynulliad.

**Y cefndir**

7. Mae gan Weinidogion Cymru gyfrifoldebau eang eu hystod sy'n ymwneud â maes Lles Cymdeithasol. Mae gan awdurdodau lleol a'u partneriaid statudol yng Nghymru gyfrifoldeb dros hybu a sicrhau llesiant plant a phobl ifanc hawdd eu niweidio, gan gynnwys rhai mewn angen; plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n gadael gofal.[1] Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ceisio, drwy ddarpariaeth benodol i Gymru mewn Mesurau Seneddol a thrwy ddefnyddio ei phwerau is-ddeddfwriaeth, meithrin dull gwahanol o weithredu sy'n ymateb i amgylchiadau Cymru ac anghenion plant yng Nghymru.

8. Wrth wraidd polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc hawdd eu niweidio, plant sy'n derbyn gofal a thlodi plant y mae pedwar cyhoeddiad allweddol a amlinellir isod, ac ymrwymiad yn y maniffesto i ddiwygio'r gyfraith ynglŷn â phlant hawdd eu niweidio a phlant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys camau i fynd i'r afael â thlodi plant. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol yn gyfrwng angenrheidiol i gyflawni'r ymrwymiadau hyn.

9. *Gweithredu'r Hawliau* [1] yw polisi cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc. Wrth wraidd y polisi hwn y mae saith nod craidd, sef bod plant a phobl ifanc:

- yn cael dechrau da mewn bywyd
- yn cael ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysg
- yn mwynhau'r iechyd gorau posib, yn rhydd o gamdriniaeth, erledigaeth ac ecsploetiaeth
- yn gallu cael mynediad at weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol;
- yn cael eu trin gyda pharch, yn cael pobl i wrando arnynt, gan gydnabod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol;
- yn byw mewn cartref a chymuned ddiogel sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol;

[1] Gweithredu'r Hawliau, Llywodraeth Cynulliad Cymru 2005

- ddim dan anfantais oherwydd tlodi.

Mae'r rhain wedi'u seilio ar nifer o themâu craidd:

- sylfaen egwyddor yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn;
- hawliau i gael gwasanaethau ar sail anghenion y plentyn neu'r person ifanc;
- gwrando ar sylwadau plant, pobl ifanc a theuluoedd a gweithredu'n ôl y sylwadau hynny;
- rhoi'r flaenoriaeth uchaf i'r rhai y mae'r angen mwyaf arnynt, gan gydnabod bod plant mewn gofal yn grŵp sydd o dan anfantais arbennig; ac
- ymrwymiad gan wahanol gyrff lleol i weithio mewn partneriaeth fel yr unig ffordd y gellir gwireddu'r dyheadau hyn.

10.Yn y ddogfen *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol*[2], strategaeth ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru dros y deng mlynedd nesaf a'r ddogfen *Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell*[3], nodwyd bwriadau polisi a chamau cynnar Llywodraeth Cynulliad Cymru tuag at wneud diwygiadau graddol i foderneiddio gwaith cyflwyno gwasanaethau i blant hawdd eu niweidio a chyflymu gwelliannau mewn polisïau a chanlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

11.Yn y *Cynllun Gweithredu yn erbyn Tlodi ymhlith Plant* a cherrig milltir cysylltiedig a'r papur targedau *Dileu Tlodi Plant yng Nghymru - Mesur Llwyddiant* nodwyd atebion a chamau penodol i integreiddio polisïau a rhaglenni i ddileu tlodi plant yng Nghymru erbyn 2020, gan adeiladu ar y rhaglenni gwrthdlodi presennol sy'n bodoli eisoes megis Dechrau'n Deg, Cymorth a Chymunedau'n Gyntaf. Mae mynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol ymhlith plant a phobl ifanc wrth galon strategaeth ehangach Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella ansawdd bywyd, hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a chydraddoldeb cyfle i bob cymuned yng Nghymru.

12. Mae gwahaniaeth cynyddol rhwng Cymru a Lloegr o ran dull gweithredu ym meysydd polisi, cynllunio a chyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc. Yr oedd Deddf Plant 2004 yn arwydd o newid sylweddol i ddull teilwredig o weithredu yng Nghymru i gyflawni'n hagenda neilltuol ar gyfer plant a phobl ifanc. Nid oes unrhyw Ymddiriedolaethau Plant yng Nghymru, a bu'n ofynnol i awdurdodau lleol Cymru greu un cyfarwyddwr dros wasanaethau plant. Yn lle hynny, mae gan gyfarwyddwyr ac aelodau arweiniol mewn llywodraeth leol a'r GIG gyfrifoldeb dros weithio mewn partneriaeth drwy'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc. Mae lles plant hawdd eu niweidio yng Nghymru a gwaith darparu gwasanaethau iddynt yn gyfrifoldeb 22 o awdurdodau lleol sy'n gweithio'n gydffiniol â 22 o fyrddau iechyd lleol a 14 o Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) i asesu anghenion lleol ar draws eu priod ardaloedd a chynllunio ar gyfer yr anghenion hynny. Y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Prif

[2] Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol – Strategaeth ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru dros y Degawd Nesaf, LlCC (2007).
[3] Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell, Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007).

Swyddogion Addysg sy'n gyfrifol am gyflenwi gwasanaethau yn eu hardaloedd. Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc (22 ohonynt) yw'r prif gyrff sy'n gyfrifol am gyd-drefnu a goruchwylio gwaith i lunio cynllun sengl strategol ynghylch sut y caiff llesiant plant yn eu hardal ei wella i fod yn sail i'r broses o gyflenwi, comisiynu a chyfuno adnoddau a gwasanaethau ar draws y bartneriaeth. Nid oes gan Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc unrhyw gyfrifoldeb dros ddarparu gwasanaethau'n uniongyrchol.

13. Mae polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y ddogfen “Tuag at Fywyd Sefydlog” a roddir ar waith o'r mis Gorffennaf hwn ymlaen yn bolisi unigryw ar gyfer plant mewn gofal yng Nghymru sydd wedi'i deilwra i adlewyrchu amgylchiadau ac atebion lleol. Mae'n dangos ymhellach fod angen i Gymru gaffael pwerau i fynd i'r afael â blaenoriaethau Cymru a materion sy'n ymwneud â Chymru. Mae'r cyfyngiadau ar y setliad presennol yn cyfyngu ar ein gallu i gyflwyno’r ystod o ddarpariaethau cydlynol yr hoffem eu gweld ac a fyddai'n gwneud gwahaniaeth i blant hawdd eu niweidio yng Nghymru, a'r rheini'n ddarpariaethau a fyddai wedi'u seilio ar gamau atal ac ar gymorth i rieni yn ogystal â phlant.

14. Mae i “blant hawdd eu niweidio” ddiffiniad eang. Yng nghyd-destun y Gorchymyn hwn mae'n ymwneud ag anghenion ystod amrywiol o blant: unrhyw blentyn mewn angen, sydd ar ymylon gofal, mewn gofal, neu sydd wedi gadael gofal. Mae'r GCD wedi'i ddrafftio yn y fath fodd ag i gynnwys cymorth i rieni y gall fod arnynt angen cymorth ar gyfer eu hiechyd meddwl, camddefnydd o sylweddau, anabledd dysgu, y ffaith eu bod yn byw mewn tlodi neu broblemau eraill a allai effeithio ar gyfleoedd a llesiant y plentyn. Mae awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau uniongyrchol ar hyn o bryd i ryw 24,000 o blant mewn angen a chynorthwyir plant a theuluoedd eraill drwy raglenni megis Dechrau'n Deg a Chynllun Cymorth sydd wedi’u seilio ar ardal. Mae “plant sy'n derbyn gofal” yn cynnwys plant yng ngofal awdurdodau lleol yng Nghymru (4,800) a phlant sy'n gadael gofal (1,600) y mae gan Lywodraeth y Cynulliad ac awdurdodau lleol gyfrifoldebau unigryw drostynt fel rhieni corfforaethol y grŵp hwn sy'n arbennig o hawdd eu niweidio. Mae rhyw 28% (170,000) o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi ar aelwydydd y mae eu hincwm islaw'r canolrif o 60%.

15. Mae swmp mawr o ddeddfwriaeth yn bodoli bellach ynglŷn â lles plant hawdd eu niweidio, mae'n dameidiog ac wedi'i diwygio gan lawer o Ddeddfau Seneddol ac amryw Orchmynion a Rheoliadau, a wnaed ar gyfer Cymru a Lloegr neu ar gyfer Cymru yn unig. Mae anghysondebau hefyd rhwng meysydd deddfwriaeth, sy'n golygu bod gwahanol grwpiau o bobl ifanc yn cael gwahanol lefelau o wasanaeth ar sail eu statws yn hytrach na'u hangen. Bydd y Gorchymyn yn caniatáu cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth bresennol mewn perthynas â phlant hawdd eu niweidio, gan ddod â’r darpariaethau a wnaed dros y blynyddoedd at ei gilydd a'u had-drefnu. Bydd yn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau mwy o eglurder i lywodraeth leol a'i phartneriaid ynglŷn â'u dyletswyddau tuag at blant hawdd eu niweidio a phobl ifanc a phlant mewn tlodi.

16. Gan adeiladu ar strategaeth 10-mlynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, y bwriad yw ymgynghori (yn 2008) ynghylch cynigion ar gyfer deddfwriaeth i roi strategaeth ar waith ar gyfer plant hawdd eu niweidio a fyddai'n gweithredu yng nghyd-destun y Partneriaethau statudol newydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.[4] Bydd y GCD yn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno cynigion cydlynol ar gyfer deddfwriaeth gan wybod y bydd gan y Cynulliad y pwerau angenrheidiol i roi ar waith newidiadau yn y gyfraith ynglŷn â lles plant a phobl ifanc, yn enwedig er mwyn sicrhau'r pwyslais cryfach ar gynorthwyo teuluoedd ac ar gamau atal sydd eisoes wedi'u nodi fel thema allweddol.

17. Mae angen pwerau ychwanegol yn y maes hwn er mwyn goresgyn y cyfyngiadau deddfwriaethol presennol a'i gwneud yn bosibl i gyflwyno atebion Cymreig i'r mater o gyflawni'r ymrwymiadau a nodwyd uchod. Mae'r terfynau deddfwriaethol presennol wedi cyfyngu ar y broses o lunio a gwella polisïau ynghylch plant sy'n derbyn gofal i ddiwallu anghenion Cymru; ac mae hyn wedi arwain at sefyllfa lle nad yw amcanion bob amser yn cael eu gwireddu'n llawn. Bydd y Gorchymyn yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol ychwanegol i'r Cynulliad i ddiwygio'r gyfraith ynghylch plant hawdd eu niweidio a thlodi plant er mwyn:

*(i) ad-drefnu a chydgrynhoi'r darpariaethau presennol ar gyfer plant hawdd eu niweidio; a*

*(ii) diwygio'r gyfraith er mwyn darparu'r fframwaith cyfreithiol i roi ar waith gydrannau allweddol o bolisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer plant hawdd eu niweidio yng Nghymru.*

*(iii) gwneud taliad atodol i gyfrifon Cronfa Ymddiriedolaeth Plant, ac os bydd yn angenrheidiol creu hawl statudol i gael gofal plant di-dâl ar gyfer plant dwy flwydd oed y mae'r angen mwyaf arnynt.*

18. Bydd y Gorchymyn yn darparu fframwaith cyfreithiol hefyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru fwrw ymlaen â'i chynigion i fynd i'r afael â thlodi plant, yn enwedig i gymryd camau i osod dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus i ddangos eu cyfraniad at waith rhoi terfyn ar dlodi plant a threfniadau penodol i awdurdodau lleol Cymru hybu cynilion plant yng Nghymru.

## Cwmpas

19. Mae cwmpas y Gorchymyn wedi'i lunio yn y fath fodd ag i alluogi'r Cynulliad i gydgrynhoi'r ddeddfwriaeth bresennol ar gyfer plant mewn angen, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Byddai'n caniatáu newidiadau i gynnal lles grwpiau ehangach o blant, nid yn unig y rhai sy'n cael eu categoreiddio'n blant “sy'n derbyn gofal” neu'n “blant mewn angen”. Mae wedi'i lunio hefyd yn y fath fodd ag i gwmpasu cymorth i deuluoedd plant a fyddai mewn perygl o ddod yn blant mewn angen oni bai eu bod wedi cael gwasanaeth. Mae'n cynnwys awdurdodau lleol a dyletswyddau

[4] Adran 25 o Ddeddf Plant 2004 – cyfrifoldeb partneriaethau i gydweithredu ym maes llesiant plant a phobl ifanc.

cyffredinol eu partneriaid i ddiogelu a hybu llesiant pob plentyn yn eu hardal gan gynnwys darpariaethau a chamau penodol o ran mynd i'r afael â thlodi plant.

20. Ar y cyfan byddai'r Gorchymyn yn ymdrin â gwasanaethau y darperir ar eu cyfer ar hyn o bryd gan Rannau –2 a 3 ac Atodlen 2 o Ddeddf Plant 1989. Byddai'n ymestyn hefyd i gynnwys cyfrifoldebau awdurdodau lleol dros wasanaethau cyn-ysgol a gwasanaethau eraill o ran gwarchod plant a gofal plant sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd o dan raglenni Dechrau'n Deg a Chynllun Cymorth. Y ddeddfwriaeth arall ynghylch plant hawdd eu niweidio y gellid ei chynnwys yn y pwerau i roi grantiau at ddibenion lles o dan Ddeddf Addysg 2002, Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002, Deddfa Safonau Gofal 2000, Deddf Plant 2004 a deddfwriaeth gofal cymunedol i'r graddau y mae ‘r ddeddfwriaeth honno'n ymwneud â swyddogaethau awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant anabl a'r rhai sy'n gofalu amdanynt a hefyd plant sydd eu hunain yn ofalwyr oedolion anabl.

21. Mae'r Gorchymyn Cynhwysedd Deddfwriaethol yn ceisio rhoi pwerau i'r Cynulliad wneud Mesurau Cynulliad ynghylch plant a phobl ifanc hawdd eu niweidio a mynd i’r afael â thlodi plant yng Nghymru, drwy ychwanegu materion at Atodlen 5 o Ddeddf 2006 o dan faes lles cymdeithasol, gan sicrhau bod unrhyw ddyletswyddau trawsffiniol mewn perthynas â Chymru a Lloegr yn cael eu cadw.

**Materion 15.1, 15.3, 15.5, 15.6 a 15.8**

